Healthcare Inspectorate Wales

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

SICRHAU GWELLIANT TRWY AROLYGU ANNIBYNNOL A GWRTHRYCHOL

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd hysbysiad ymlaen llaw)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Practis Deintyddol Six Gables

29 Hydref 2014

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Y Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:**0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.agic.org.uk



ISBN digidol 978-1-4734-2765-5


© Hawlfraint y Goron 2015

# Cynnwys

1. Cyflwyniad .... 2

2. Methodoleg .... 2

3. Cyd-destun .... 4

4. Crynodeb .... 5

5. Canfyddiadau .... 6

Profiad y Claf .... 6

Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru .... 9

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .... 12

Ansawdd yr Amgylchedd .... 14

6. Y Camau Nesaf .... 16

## 1. Cyflwyniad

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gwblhau arolygiad, a hysbyswyd ymlaen llaw, ym Mhractis Deintyddol Six Gables yn 27a Heol Penlline, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, ar 29 Hydref 2014.

Ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol gennym yn ystod yr arolygiad:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd.

## 2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o Bractisau Deintyddol Cyffredinol yn ceisio canfod pa mor dda y mae practisau yn bodloni'r safonau yn Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru[1].

Adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gennym yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion

[1] Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Daeth Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru i rym ar 1 Ebrill 2010. Mae'r fframwaith safonau yn nodi gofynion yr hyn a ddisgwylir gan bob gwasanaeth iechyd ym mhob lleoliad yng Nghymru. http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1064/Gwneud%20yn%20Dda%2C%20Gwneud%20yn%20Well%20%E2%80%93%20Safonau%20ar%20gyfer%20Gwasanaethau%20Iechyd%20Cymru%20%28Ebrill%202010%29.pdf

- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a’r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth ac ar wefan y practis
- Holiaduron cleifion AGIC.

Ar ddiwedd pob arolygiad rydym yn cynnig trosolwg o’n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a’r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai godi o ganlyniad i arolygiadau deintyddol, a hynny drwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o’r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o’r modd y gweithredir safonau yn y practis yr ymwelwyd ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

## 3. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Six Gables yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Yr Eglwys Newydd, Caerdydd. Mae'r practis yn rhan o’r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Caerdydd a'r Fro. Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys tri deintydd a chwech o staff eraill a oedd yn ymgymryd â rolau nyrsio a gweinyddu.

Mae'r practis yn darparu triniaeth yn breifat ac i’r GIG.

Gan fod Practis Deintyddol Six Gables yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat a GIG, bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau (Diwygio) Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2011.

## 4. Crynodeb

Edrychodd AGIC ar sut mae Practis Deintyddol Six Gables yn bodloni'r safonau gofal yn Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru.

Roedd yr adborth a gawsom gan gleifion a wnaeth siarad â ni neu a wnaeth gwblhau holiadur, yn gadarnhaol. Dywedodd y cleifion wrthym fod staff y practis bob amser yn rhoi croeso iddynt a gwelsom agwedd gymwynasgar, gyfeillgar a phroffesiynol y staff wrth iddynt siarad â'r cleifion.

Gwnaethom argymell y dylid gwneud gwelliannau i'r wybodaeth ar gyfer y cleifion sy'n cael ei harddangos yn yr ystafell aros. Argymhellwyd hefyd y dylai'r practis wella eu gweithdrefn gwynion i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â threfniadau cwynion 'Gweithio i Wella' y GIG.

Ar y cyfan, canfuom fod y gwasanaeth a gynigir gan y practis yn cael ei gynnal gan bolisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig perthnasol i sicrhau bod gofal a thriniaeth cleifion yn cael eu cyflenwi'n ddiogel.

**Canfuom rhai anghysonderau yn ymwneud â chofnodion cleifion, gan gynnwys cyfran y wybodaeth a gofnodwyd ac ym mhle yr oedd y wybodaeth honno yn cael ei storio.**

Gwelsom fod nifer o bolisïau perthnasol a gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod gofal a thriniaeth cleifion yn cael eu cyflenwi'n ddiogel. Roedd tystiolaeth o weithio tîm cydlynol, ac roedd gan yr holl staff ddealltwriaeth eglur o'r hyn a ddisgwylir yn eu swyddogaethau.

Roedd y lleoliad mewn adeilad mawr a ddefnyddiwyd yn flaenorol at ddibenion preswyl. Ar y cyfan, gwelsom fod yr amgylchedd yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, yn lân a thaclus ac roedd y practis yn hygyrch i gleifion a oedd â lefelau amrywiol o symudedd.

## 5. Canfyddiadau

### *Profiad y Claf*

Roedd yr adborth a gawsom wrth gleifion a wnaeth siarad â ni neu a wnaeth gwblhau holiaduron yn gadarnhaol. Gwnaeth cleifion ein hysbysu fod staff y practis bob amser yn groesawgar a gwelsom eu dull proffesiynol, caredig a chyfeillgar wrth iddyn nhw siarad â chleifion.

**Gwnaethom argymell gwelliannau i wybodaeth y cleifion a ddangosir yn yr ystafell aros. Argymhellir y dylai'r practis wella eu gweithdrefn gwynion i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â threfniadau cwynion 'Gweithio i Wella' y GIG.**

Ar ddiwrnod ein harolygiad roedd y practis ar agor ar gyfer apwyntiadau argyfyngus ac o ganlyniad roedd nifer cyfyngedig o gleifion ar gael i siarad â thîm yr arolygwyr. Gwnaethom sgwrsio â dau o gleifion a'u perthnasau. Rhoddwyd holiaduron AGIC i gleifion cyn yr arolygiad i gywain eu barn ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir.

Gwnaeth yr holl gleifion y gwnaethom siarad â nhw, ac a wnaeth gwblhau'r holiaduron, ddweud wrthym fod staff y practis yn groesawgar. Gwelsom staff yn siarad â chleifion mewn ffordd gymwynasgar, gyfeillgar a phroffesiynol.

Roedd yr adborth a ddarparwyd gan y cleifion yn cynnwys sylwadau megis:

> "Rydw i bob amser wedi bod yn fodlon gyda'r driniaeth."
>
> *"Deintyddion a staff gweinyddol rhagorol."*
>
> "*Bob amser yn llwyddo i gael apwyntiad yr un diwrnod.*"

Gwnaeth yr holl gleifion a wnaeth gwblhau'r holiadur ddweud eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth, a'u bod yn cymryd rhan yn y penderfyniadau am eu gofal. Dywedodd cleifion eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth yr oeddent yn ei dderbyn a gwnaethant ddweud nad oeddent wedi profi unrhyw oedi wrth aros i weld y deintydd. Gwnaeth yr holl gleifion gadarnhau eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at ofal 'allan o oriau' pan roedd y practis ar gau.

Roedd system apwyntiadau hyblyg ar waith a oedd yn golygu y gallai'r cleifion drefnu apwyntiadau rheolaidd ymlaen llaw yn ogystal â threfnu apwyntiad mewn argyfwng. Dywedodd staff wrthym eu bod yn ceisio gweld cleifion cyn gynted â phosibl pan fo angen ac y gallent drefnu apwyntiad ar ddiwedd y dydd. Gwnaeth y cleifion gadarnhau eu bod bob amser wedi gallu gweld deintydd yn y practis ar yr un diwrnod pan oeddent mewn argyfwng.

Roedd y practis yn gweithredu system  ail-alw i atgoffa cleifion pryd roedd eu hapwyntiad nesaf.  Gwnaeth rheolwr y practis esbonio eu bod nhw wedi gwneud hyn drwy anfon llythyron bob mis yn atgoffa'r cleifion pa bryd roedd eu harchwiliad a gofyn iddynt gysylltu â'r practis i wneud apwyntiad. Yna, roedd cleifion yn derbyn neges i'w hatgoffa am eu hapwyntiad naill ai drwy neges destun neu dros y ffôn. Roedd hyn yn helpu i leihau nifer yr apwyntiadau a gollwyd. Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod y system hon yn caniatáu i gleifion argyfyngus gael apwyntiad yn ôl yr angen.

Gwelsom fod y wybodaeth a oedd ar gael i'r cleifion yn yr ystafell aros yn brin, megis gwybodaeth ar hysbysfwrdd a phosteri/gwybodaeth ddefnyddiol. Gallai hyn gael ei ddefnyddio fel dull o gyfathrebu materion cyfredol am iechyd y geg a chyngor i gleifion. Gwnaethom hefyd weld nad oedd gwybodaeth ar gael a oedd yn ymwneud â phris triniaeth ddeintyddol a lefelau'r triniaethau.

***Y gwelliant sydd ei angen***

***Rhaid i'r practis arddangos rhestr brisiau'r triniaethau, gan gynnwys prisiau ar gyfer triniaeth ddeintyddol y GIG.***

***Efallai y byddai'r practis yn dymuno ystyried neilltuo rhan o'r wal ar gyfer arddangos gwybodaeth ddefnyddiol i gleifion, megis hyrwyddo iechyd y geg.***

Yn ogystal â hyn, tra bod gwybodaeth i gleifion ar sut y gallant nodi pryderon neu gwynion am eu gofal a'u triniaeth ar gael yn yr ystafell aros, nid oedd y wybodaeth hon wedi'i harddangos yn glir. Roedd hyn yn golygu efallai nad oedd cleifion yn gwybod sut i fynegi pryder neu wneud cwyn. Gwnaeth cleifion y buom yn siarad â nhw ddweud nad oeddent yn gwybod sut i wneud cwyn am eu gofal deintyddol a'u triniaeth. Fodd bynnag, gwnaethant ddweud wrthym nad oeddent erioed wedi teimlo'r angen i gwyno. Gwnaethom gynghori'r practis i wella'r wybodaeth sydd ar gael i gleifion ynglŷn â'r weithdrefn gwyno.

***Y gwelliant sydd ei angen***

***Dylai'r practis sicrhau bod y polisi cwynion/poster cwynion o fewn golwg i'r cleifion.***

Mae'r practis yn darparu triniaeth breifat yn ogystal â thriniaeth GIG ac roedd gweithdrefn ar waith i gleifion nodi pryderon neu gwynion ynglŷn â'u gofal a'u triniaeth. Er bod y weithdrefn yn gyffredinol yn bodloni'r trefniadau a oedd yn perthyn i ofal a thriniaeth breifat yn ogystal â'r GIG, nid oedd yn cydymffurfio'n llwyr â'r

trefniadau a amlinellir dan 'Gweithio i Wella'[2]. Ni allem fod yn sicr bod cwynion yn cael eu hymdrin â nhw o fewn yr amserlenni disgwyliedig, na chwaith bod cleifion yn derbyn gwybodaeth ynglŷn â'r ffaith y gallent gyfeirio eu cwynion at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru pe baent yn dymuno gwneud hynny.

***Y gwelliant sydd ei angen***

***Dylai'r practis sicrhau bod y weithdrefn gwynion ar gyfer cleifion sy'n derbyn triniaeth GIG yn cydymffurfio'n llwyr â threfniadau 'Gweithio i Wella'.***

Nid oes gan y practis wefan annibynnol y maen nhw'n ei rheoli, ond mae gwefannau GIG Cymru a Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro yn cynnwys gwybodaeth am y practis. Gwnaeth ein harolygiad o'r wybodaeth sydd ar wefannau GIG a'r Bwrdd Iechyd ganfod manylion nad oeddent yn gyfredol. Unwaith y cafodd ei hysbysu am hyn, gwnaeth rheolwr y practis ddilyn y camau priodol i ddileu'r wybodaeth nad oedd yn gyfredol.

Nid oedd gan y practis system i asesu safbwyntiau cleifion yn rheolaidd a gweithredu arnynt. Byddai hyn yn gallu bod o help i sicrhau fod y practis yn cynnig gwasanaeth sy'n bodloni anghenion y cleifion a gallai helpu'r practis i adnabod gwelliannau.

***Y gwelliant sydd ei angen***

***Mae angen i'r practis ddatblygu system o werthuso a gwella parhaus trwy adborth cleifion, er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn diwallu anghenion ei boblogaeth.***

---

[2] 'Gweithio i Wella' yw'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer trin ac ymateb i bryderon am ofal a thriniaeth a ddarperir gan y GIG yng Nghymru

## *Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*

**Ar y cyfan, gwnaethom ganfod bod y gwasanaeth a gynigir gan y practis wedi'i seilio ar bolisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig perthnasol, i sicrhau bod gofal a thriniaeth y cleifion yn cael eu cyflenwi'n ddiogel.**

**Gwnaethom ganfod rhai anghysonderau yn ymwneud â chofnodion y cleifion, gan gynnwys cyfran y wybodaeth a gofnodwyd, a ble y storiwyd y wybodaeth honno.**

Gwnaeth rheolwr y practis ein hysbysu fod angen i'r holl gleifion newydd gwblhau holiadur claf newydd, sy'n cynnwys eu gwybodaeth feddygol. Roedd gan y practis bolisi o wirio hanes meddygol cleifion yn ystod pob ymweliad a sicrhau bod unrhyw newidiadau a wnaed i'w gwybodaeth feddygol neu risgiau posibl i'w hiechyd yn cael eu nodi a'u diweddaru yn eu cofnodion.

Gwelsom ei fod yn anodd canfod hanes meddygol cychwynnol a ddarparwyd gan y cleifion pan wnaethant ymuno â'r practis gyntaf, am eu bod wedi cael eu storio mewn gwahanol leoedd yn ddibynnol ar pa bryd y gwnaeth y claf ymuno â'r practis. Wrth edrych ar nodiadau'r cleifion nid oedd yn glir ble y gellir dod o hyd i'w hanes meddygol. Golygai hyn os oedd claf yn derbyn triniaeth gan ddeintydd gwahanol, nid oedd bob amser yn glir ar unwaith ble roedd y cofnod cyntaf neu'r cofnod mwyaf diweddar wedi'i storio.

***Y gwelliant sydd ei angen***

***Dylai'r practis sicrhau bod cofnodion cyflawn a chywir ar gael i bob claf, gan gynnwys sicrhau bod hanes meddygol cyfredol ar gael ar gyfer bob claf.***

Gwnaethom archwilio sampl o 15 o gofnodion cleifion (h.y. pum cofnod claf ar gyfer pob deintydd a oedd yn gweithio yn y practis ar ddiwrnod ein harolygiad). Gwnaethom ganfod bod lefel y manylion a gofnodwyd gan bob deintydd unigol yn anghyson. Er enghraifft, roedd rhai cofnodion cleifion yn cynnwys nodiadau cynhwysfawr a chynlluniau ar gyfer y dyfodol, tra bod rhai eraill yn gryno.

Gwnaethom ganfod bod deintyddion yn rhoi cofnodion cleifion ar ôl apwyntiad mewn gwahanol fannau ar y cofnodion electronig. Yn sgil hyn, pan wnaethom ni geisio canfod gwybodaeth benodol, er enghraifft opsiynau triniaeth a drafodwyd, nid oeddem yn gallu canfod y wybodaeth bob tro oherwydd nad oedd yn yr un lle ym mhob cofnod. Gwnaeth rheolwr y practis a'r deintydd y gwnaethom siarad â nhw gadarnhau nad oedd gan y practis ddull o gofnodi'r wybodaeth ar y cofnod electronig, ac mai dim ond yn ddiweddar y cafodd y system ei chyflwyno, a golygai hyn bod staff yn dal i ymgyfarwyddo â hi.

***Y gwelliant sydd ei angen***

***Dylai'r practis sicrhau bod cofnodion electronig yn gynhwysfawr a bod dull cyson yn cael ei weithredu o ran cofnodi manylion triniaethau, yn enwedig o ran lleoliad y cofnodion.***

Gwnaethom edrych ar y gweithdrefnau oedd ar waith ar gyfer dadheintio teclynnau a chanfod bod camau a gwiriadau priodol ar waith. Roedd hyn cyn cynnwys dulliau glanhau, storio teclynnau a'r ffordd roedd staff yn cludo teclynnau o gwmpas y practis.

Gwelsom fod eitemau offer sydd wedi'u diheintio yn cael eu cadw i gyd mewn pecynnau a oedd wedi'u selio'n briodol. Fodd bynnag, nid oedd sticeri ar bob eitem i nodi'r dyddiadau diheintio na'r dyddiad dod i ben. Gwnaethom hysbysu rheolwr y practis am hyn a chafodd yr eitemau nad oeddent yn cynnwys sticeri eu dadheintio eto a rhoddwyd label arnynt ar unwaith.

Wrth sgwrsio â rheolwr y practis ac archwilio ffeiliau'r practis cadarnhawyd bod y practis yn cynnal archwiliadau chwarterol rheolaidd yn gysylltiedig â gofynion rheoli heintiau, yn unol â dogfen o'r enw Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05)[3].

Gwnaethom ganfod bod gan y practis gytundeb parhaus ar waith ar gyfer gwaredu â gwastraff peryglus. Gwelsom fod gwastraff wedi cael ei wahanu i gynhwysyddion o wahanol liwiau er mwyn amlygu'r dull cywir o waredu arnynt. Gwelsom fod y biniau ar gyfer gwastraff clinigol wedi'u storio yn y maes parcio, ac nid oeddent wedi'u cloi. Oherwydd bod yr ardal hon yn hygyrch i'r cyhoedd, gwnaethom argymell y dylai'r biniau gael eu cloi.

***Y gwelliant sydd ei angen***

***Dylai'r biniau allanol sy'n storio gwastraff clinigol/gwastraff peryglus gael eu cadw dan glo.***

Canfuwyd gennym fod y trefniadau oedd ar waith o ran defnyddio offer pelydr-x yn cyd-fynd â'r safonau a'r rheoliadau presennol. Roedd y staff wedi derbyn hyfforddiant priodol ac roedd ansawdd pelydrau-x deintyddol y cleifion yn cael eu gwirio'n aml. Gwnaeth rheolwr y practis ddarparu copi o weithdrefn pelydr-x y practis a oedd wedi cael ei diweddaru'n ddiweddar. Roedd y staff i gyd wedi ei llofnodi gan

---

[3] http://wales.gov.uk/topics/health/cmo/professionals/dental/publication/cdo-letters/decontamination2/?lang=cy. Mae dogfen WHTM 01-5 yn darparu canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadhalogi mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

gadarnhau eu bod wedi adolygu a deall y weithdrefn a'i diwygiadau mwyaf diweddar. Golyga hyn y gall cleifion fod yn hyderus bod y staff yn defnyddio offer pelydr-x yn ddiogel.

Nid oedd gwybodaeth a oedd yn ymwneud ag adolygu ansawdd y pelydrau-x yn cael eu cofnodi yn nodiadau'r cleifion ond yn hytrach mewn llyfr pelydr-x, a oedd yn cael ei storio ym mhob deintyddfa unigol. Gwnaeth pob un o'r deintyddion y gwnaethom siarad â nhw gadarnhau eu bod yn adolygu'r llyfrau pelydr-x yn rheolaidd i fonitro a chynnal unrhyw newidiadau yn ansawdd y pelydrau-x. Golyga hyn nad yw cleifion yn cael eu rhoi yn agored i ymbelydredd heb angen.

Gwnaethom ganfod bod y practis wedi archebu set newydd o fathodynnau dos ymbelydredd, yn unol â'u gweithdrefnau ymbelydredd a oedd yn ei gwneud hi'n ofynnol i fonitro dos yr ymbelydredd yn y practis yn rheolaidd. Fodd bynnag, roedd y rhain wedi cael eu storio yn y ffeil ymbelydredd ac nid oeddent eto wedi cael eu defnyddio.

***Y gwelliant sydd ei angen***

Dylai'r practis sicrhau bod gweithdrefnau monitro dos ymbelydredd yn cael eu monitro'n barhaus ac y defnyddir y bathodynnau ymbelydredd newydd.

Roedd gan y practis weithdrefnau priodol ar waith ac roedd offer dadebru a chyffuriau ar gael pe bai argyfwng i glaf (cwymp) yn y practis. Canfuwyd bod cyffuriau brys wedi'u storio'n ddiogel gyda'r offer dadebru. Gwelwyd hefyd bod trefniadau addas ar waith i sicrhau bod cyffuriau sydd â'u dyddiad wedi dod i ben yn cael eu newid yn brydlon.

Dywedodd yr holl staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod wedi derbyn hyfforddiant mewn cymorth cyntaf brys. Roedd y cofnodion a welsom yn dangos bod staff wedi derbyn hyfforddiant ar sut i ddelio ag argyfyngau meddygol, gan gynnwys sut i weinyddu adfywio cardio-pwlmonaidd, ac roedd ganddynt dystysgrifau i gadarnhau hynny.

Gwnaethom edrych ar amrywiaeth o ffeiliau cynnal a chadw a oedd yn cynnwys amserlenni cynnal a chadw, a thystysgrifau a gedwir yn y practis. Roedd y rhain yn dangos bod systemau addas a phrosesau rheoli ar waith i sicrhau bod yr holl offer yn cael eu harchwilio'n amserol ac yn unol â'r gofynion gorfodol.

## *Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

Gwnaethom ganfod bod nifer o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith i sicrhau bod gofal a thriniaeth y claf yn cael eu cyflenwi'n ddiogel. Roedd tystiolaeth o weithio fel tîm cydlynol, ac roedd gan yr holl staff ddealltwriaeth eglur o'r hyn a ddisgwylir yn eu swyddogaethau.

Mae'r practis yn darparu gofal a thriniaeth ddeintyddol yn breifat ac i'r GIG. Ar adeg ein harolygiad, roedd rheolwr practis yn gyfrifol am redeg y practis o ddydd i ddydd.

Gwnaethom ganfod bod gan y practis bolisïau ysgrifenedig perthnasol a gweithdrefnau i sicrhau bod pob agwedd ar ofal a thriniaeth y claf yn cael ei chyflenwi'n ddiogel. Roedd y rheolwr practis yn cynnal a chadw ffeiliau'r gweithdrefnau hyn a oedd yn cael eu cadw yn y practis fel y gallai staff gyfeirio at y wybodaeth ar unrhyw adeg. Roedd gan bob polisi ddyddiadau adolygu i sicrhau bod y wybodaeth yn gyfredol a bod yr holl bolisïau wedi cael eu hadolygu, eu diweddaru a'u rhoi i staff ddau fis cyn dyddiad yr arolygiad. Fodd bynnag, roedd y practis wedi cadw fersiynau blaenorol o bolisïau a gweithdrefnau, a gallai hyn achosi dryswch. Gwnaethom argymell bod y polisïau hyn a oedd wedi'u dyblygu yn cael eu tynnu oddi yno er mwyn helpu staff i ddod o hyd i'r polisi cyfredol.

Dywedodd rheolwr y practis wrthym eu bod nhw'n cynnal cyfarfodydd staff misol yn rheolaidd. Rhoddai hyn gyfle i staff nodi unrhyw bryderon ynglŷn â'r gwasanaeth a ddarperir. Roedd y cyfarfodydd hyn hefyd yn ffordd o ddarparu gwybodaeth am unrhyw bolisïau a gweithdrefnau, ac o gyfleu gwybodaeth newydd i'r tîm deintyddol. Gwelsom gofnodion y cyfarfod staff blaenorol a gafodd ei gynnal yn ystod y mis cyn dyddiad yr arolygiad.

Gwnaeth rheolwr y practis ein hysbysu bod cytundeb ar waith gyda'r bwrdd iechyd lleol i gael cefnogaeth iechyd galwedigaethol i staff, fel brechlynnau a gweithdrefnau pe bai damwain â nodwyddau.  Mae hyn yn sicrhau bod gan y staff systemau priodol ar waith i gofnodi anafiadau a gafwyd, yn ogystal ag atal croes-heintio posibl ymhlith y staff a chleifion.

Dywedodd staff wrthym eu bod yn credu eu bod yn cael digon o gefnogaeth wrth eu gwaith gan reolwr y practis a'r deintyddion, ac y byddent yn hapus i fynegi unrhyw bryder a allai fod ganddynt yn ymwneud â'r gwaith. Roedd tystiolaeth o weithio tîm cydlynol ac effeithiol, ac roedd gan yr holl staff ddealltwriaeth eglur o'r hyn a ddisgwylir yn eu swyddogaethau.

Edrychwyd ar sampl o gofnodion hyfforddiant staff. Cadarnhaodd y rhain bod gan y staff fynediad at amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi sy'n berthnasol i'w swyddogaethau. Roedd yn amlwg inni fod y practis wedi defnyddio canlyniadau prosiect dysgu a ymgymerwyd gan aelod o staff er mwyn datblygu arddull

ysgrifenedig Six Gables ar gyfer unrhyw ddogfennaeth a ddefnyddir yn y practis. Gwnaeth y rheolwr practis gadarnhau fod hyn yn enghraifft lle caiff staff eu hannog i ddatblygu a rhannu arfer orau a oedd yn cael ei efelychu yn holl ddogfennau'r practis.

Gwelsom dystiolaeth fod staff wedi cael arfarniadau blynyddol a'u bod yn ymgymryd â datblygiad proffesiynol a oedd yn sicrhau bod eu gwybodaeth a'u harbenigedd yn cael eu diweddaru'n rheolaidd.

## *Ansawdd yr Amgylchedd*

Roedd y practis wedi'i leoli mewn adeilad mawr a gafodd ei ddefnyddio'n flaenorol at ddibenion preswylio. Gwnaethom ganfod bod yr amgylchedd cyffredinol yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, yn lân a thaclus a bod y practis yn hygyrch ar gyfer cleifion sydd â lefelau symudedd amrywiol.

Mae'r practis wedi'i leoli yn ardal yr Eglwys Newydd yng Nghaerdydd ac mae'n bosibl parcio'r car yn y practis mewn maes parcio bach, neu mewn maes parcio cyhoeddus sydd wedi'i leoli nepell i ffwrdd.

Mae gan y practis bedair deintyddfa, dwy sydd wedi'u lleoli ar y llawr daear a dwy ar y llawr cyntaf. Roedd enwau, cymwysterau a rhifau cofrestru'r holl ddeintyddion sy'n gweithio yn y practis wedi'u harddangos ym mhob deintyddfa. Mae ystafell aros y cleifion drws nesaf i'r brif dderbynfa sydd ar y llawr daear. Roedd gan y ddeintyddfa a oedd lawr llawr ei drws mynedfa ei hun, ac roedd mynediad gwastad ato yn uniongyrchol o'r maes parcio y tu cefn i'r practis. Golygai hyn fod amgylchedd y ddeintyddfa yn hygyrch i gleifion a oedd yn meddu ar anawsterau symudedd.

Gwnaeth ein harsylwadau nodi fod maint yr ystafelloedd aros yn briodol o ystyried nifer y meddygfeydd a'r cleifion a oedd yn mynychu. Roedd ystafell aros y cleifion yn lân, yn daclus ac wedi'i goleuo'n effeithiol. Gwnaethom ganfod gwybodaeth a oedd wedi'i harddangos a oedd yn nodi'r rhif cyswllt 'tu allan i oriau' er mwyn hysbysu'r cleifion a oedd yn mynychu ar gyfer eu triniaeth. Roedd tŷ bach ar gael ar y llawr daear i'r cleifion ei ddefnyddio a oedd wedi'i labeli ag arwyddion golchi dwylo, sychwr dwylo a thywelion papur. Fodd bynnag, ni fyddai'n hygyrch ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadair olwyn. Roedd pob ardal yn daclus yn ôl pob golwg ac wedi cael eu hadnewyddu'n ddiweddar. Rhoddwyd diffoddwyr tân mewn lleoedd a oedd yn hawdd eu cyrraedd ac roedd yn amlwg i ni eu bod wedi cael eu gwirio'n rheolaidd.

Cadarnhaodd taith o gwmpas yr adeilad bod y practis wedi'i gynnal a'i gadw'n foddhaol yn y tu mewn a'r tu allan. Ceir arwydd ar flaen y safle yn nodi amseroedd agor y practis. Fodd bynnag, nid oedd y wybodaeth hon yn amlwg ac nid oedd enw'r practis yn glir ar unwaith. Roedd gan gyfleusterau, megis y tai bach, arwyddion ar ffurf lluniau ar y drysau. Fodd bynnag, nid oedd arwyddion clir i ddangos i gleifion ble roedd y tai bach. Ar y cyfan, gwnaethom ganfod bod arwyddion y ddeintyddfa'n wael ar y cyfan a gwnaethom argymell y dylai'r practis ystyried gwella'r arwyddion.

***Y gwelliant sydd ei angen***

Dylai'r practis wella'r arwyddion ar gyfer y cleifion yn y ddeintyddfa.

Gwelwyd fod trefniadau priodol ar waith ar gyfer storio a chadw cofnodion papur a chofnodion electronig yn ddiogel. Storiwyd cofnodion papur mewn cypyrddau dan glo

ac roedd system wrth gefn ar waith ar gyfer cofnodion electronig.  Roedd rhagofalon diogelwch ar waith hefyd i atal mynediad heb awdurdod i fannau yn yr adeilad nad ydynt yn cael eu defnyddio gan gleifion.

## 6. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella mewn perthynas â phrofiad cleifion, cyflenwi safonau ar gyfer gwasanaethau iechyd Cymru, rheolaeth ac arweinyddiaeth, ac ansawdd yr amgylchedd. Mae'r manylion hyn i'w gweld yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Neintyddfa Six Gables yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y caiff ei gytuno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu ddeintyddol barhaus.